# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mehefin 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12875

## 76

---

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 6 gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd cwestiynau 1-4 a 6-8. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl cwestiwn 2.

**Am 14.30, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 29 munud. Cafodd y gloch ei chanu 3 munud cyn ailgynnull.**

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.23

Gofynnwyd y 5 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 1 a 3 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.39

Atebwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

**Rhys ab Owen (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn rhentwyr ar ôl gohirio gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016?

Atebwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newyddion y bydd y grŵp sy'n berchen ar Ganolfan Ganser Rutherford yng Nghasnewydd yn cael ei ddiddymu?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.58

Gwnaeth Jenny Rathbone ddatganiad am – 40 mlynedd ers ymosodiadau awyr Sir Galahad/Bluff Cove.

Gwnaeth Samuel Kurtz ddatganiad am – Wythnos Ddathlu Bwyd a Ffermio Cymru.

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 16.02

**NDM8021** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14:

1. Yn ethol James Evans (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn lle Peter Fox (Ceidwadwyr Cymreig).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.02

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8014** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 'Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru'.

2. Yn cymeradwyo'r cyfarwyddiadau polisi a argymhellir ynghylch deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd mewn digon o amser ar gyfer etholiadau nesaf y Senedd yn 2026.

3. Yn nodi bod yr adroddiad hefyd yn galw ar y Senedd i drafod nifer o faterion sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y datganiad sefyllfa ar ddiwygio'r Senedd gan Lywodraeth Cymru ar 10 Mai 2022 a oedd yn tanseilio annibyniaeth a gwaith y pwyllgor.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 40 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y ffaith na fyddai'r system bleidleisio a gynigir gan y pwyllgor yn caniatáu i bleidleiswyr bleidleisio dros ymgeisydd unigol o'u dewis.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 39 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:**

**NDM8014** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 'Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru'.

2. Yn cymeradwyo'r cyfarwyddiadau polisi a argymhellir ynghylch deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd mewn digon o amser ar gyfer etholiadau nesaf y Senedd yn 2026.

3. Yn nodi bod yr adroddiad hefyd yn galw ar y Senedd i drafod nifer o faterion sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 14 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dechreuodd yr eitem am 18.14

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8015** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflawni'r gwelliannau a addawyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

2. Yn credu bod y penderfyniad i symud y bwrdd iechyd o fesurau arbennig ym mis Tachwedd 2020 yn amhriodol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod trefn mesurau arbennig ddiwygiedig i roi'r arweiniad a'r adnoddau sydd eu hangen ar y bwrdd iechyd i fynd i'r afael â methiannau, a darparu'r gofal iechyd o ansawdd uchel y mae pobl Gogledd Cymru yn ei haeddu.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 13 | 27 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gomisiynu adolygiad annibynnol i ystyried manteision posibl disodli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â strwythurau newydd i ddarparu gofal iechyd yn y gogledd, oherwydd ei broblemau cronig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant. Gan fod y**

**Senedd wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliant i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 19.19 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.**

Dechreuodd yr eitem am 19.25

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.30

**NDM8011** Joel James (Canol De Cymru)

Materion cudd sy'n effeithio ar bobl fyddar a phobl sy'n dioddef o golled clyw

Daeth y cyfarfod i ben am 19.50

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2022**